

## POLISI TREULIAU GWIRFODDOLWYR CENEDLAETHOL

---

### 1. CYFLWYNIAD

Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad gwirfoddol sy'n llwyr ddibynnol ar gyfraniadau aelodau a chefnogwyr.

Ni fydd hawl awtomatig gan wirfoddolwyr cenedlaethol i hawlio treuliau, ond bydd cynnig rhagweithiol iddynt wneud cais. Rhannwn neges gyda geiriad tebyg i'r canlynol gyda manylion digwyddiadau: *'Os yw costau yn rhwystr i chi rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau'r Gymdeithas, gallwn ni gynnig cymorth gyda threuliau o dan rai amgylchiadau, felly cysylltwch am ragor o wybodaeth'*.

### 2. PA GOSTAU YN UNION Y GELLIR EU HAWLIO, A PHA GYFRADD A DELIR:

Bydd hawl gan wirfoddolwyr hawlio'r costau canlynol.

#### 2.1 Costau teithio

**2.1.1** Telir costau teithio i fynd i gyfarfod sy'n uniongyrchol yn ymwneud â rôl ar ymgyrch grŵp ymgyrchu, Senedd neu Gyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith. Bydd pwyslais ar rannu lifftiau ac ar ddefnyddio trafndiaeth cyhoeddus er mwyn lleihau costau amgylcheddol ac ariannol teithio. Gwneir ymdrech gan swyddogion cyflogedig i gynnig lifftiau i gyfarfodydd oni bai bod rheswm da dros beidio.

**2.1.2** Ni thelir costau oni bai y bu'n afresymol trefnu rhannu car neu drafnidiaeth o fath arall gyda swyddog(ion) cyflogedig. Fel rheol, dylai gwirfoddolwr geisio rhannu car neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle bo'n bosib am resymau amgylcheddol ac ariannol. Disgwylir i wirfoddolwyr ddefnyddio'r math rhataf o drafnidiaeth gyhoeddus.

**2.1.3** Y gyfradd a delir am gostau teithio fydd 25c y filltir (Mehefin 2023).

**2.2** Gofal plant: mae croeso i blant a phobl ifanc yn ein holl gyfarfodydd. Cynigir trefniant gofal plant gan y Gymdeithas yn ystod cyfarfodydd grwpiau ymgyrchu, Senedd a'r Cyfarfod Cyffredinol os gwneir cais wythnos ymlaen llaw. Os gwneir cais, bydd swyddogion yn ceisio trefnu gofal, gan gynnwys cynorthwyo chwilio am rywun i ofalu.

**2.3** Cost deunyddiau: gellir hawlio cost deunyddiau ymgyrchu perthnasol dim ond ble mae hynny'n angenrheidiol ar gyfer gweithgaredd a gytunwyd o flaen llaw gan y Senedd neu un o ranbarthau neu grwpiau ymgyrchu y Gymdeithas.

### 3. PA GOSTAU NA ELLIR EU HAWLIO

**3.1** Ni thelir costau trafndiaeth ar gyfer taith un unigolyn am swm o fwy na £100, oni bai bod rheswm eithriadol dros eu talu.

**3.2** Ni thelir costau gofal ar gyfer un unigolyn am swm o fwy na £100, oni bai bod rheswm eithriadol dros eu talu.

**3.3** Ni thelir costau bwyd, oni bai bod rheswm eithriadol dros eu talu. Dim ond paneidiau a ddarperir yn ystod cyfarfodydd Senedd a'r Cyfarfod Cyffredinol.

**3.4** Ni thelir costau llety, oni bai bod rheswm eithriadol dros eu talu.

### 4. Y DREFN AR GYFER HAWLIO

**4.1** Dylid cyflwyno cais am dreuliau yn ysgrifenedig ar y ffurflen bwrsasol ddim yn hwyrach na mis ar ôl talu am unrhyw dreuliau. Wrth wneud cais am ad-daliad, rhaid darparu'r holl

fanylion a derbynebau, gan nodi'r rheswm dros hawlio treuliau.

- 4.2 Dylid anfon cais am dreuliau at yr Ysgrifennydd Cyffredinol a fydd wedyn yn dilysu'r cais cyn ei anfon ymlaen at Drysorydd y Gymdeithas.
- 4.3 Anelir at ad-dalu'r costau o fewn mis. Fel arfer, caiff costau eu talu drwy drosglwyddiad yn syth i gyfrif banc.
- 4.4 Caiff y Trysorydd wneud taliadau ymlaen llaw lle bo'n briodol o dan yr amgylchiadau, cyn belled â bod tystiolaeth briodol o'r gwariant yn dilyn.

## 5. CYFATHREBU'R POLISI

Cynhwysir y neges ganlynol wrth hysbysebu'r cyfarfod.

*Angen cymorth er mwyn gallu dod i'r cyfarfod?*

- *Mae croeso i blant yn ein cyfarfodydd.*
- *Mae swyddogion cyflogedig (neu wirfoddol) y Gymdeithas yn gallu cynnig lifftiau o nifer o leoedd yn y wlad.*
- *Os yw costau teithio neu ofal yn rhwystr rhag ddod i'r cyfarfod, gallwch wneud cais i hawliau'r costau yn ôl. Rydym ond yn ystyried ceisiadau am gostau teithio mewn amgylchiadau pan nad oedd yn bosib i chi rannu lifft gyda swyddogion eraill.*
- *Dylech gysylltu â'n swyddfa ganolog ar 01970 624501 cyn gwneud trefniadau teithio neu ofal rydych chi eisiau eu hawliau yn ôl rhag ofn bod modd i ni drefnu lifft neu wneud trefniant arall.*
- *Mae croeso i unrhyw aelod o Gymdeithas yr Iaith ddod i gyfarfodydd y Senedd a chyfrannu atynt, ond dim ond swyddogion etholedig a chyflogedig sydd â'r hawl i bleidleisio. Mae rhagor o fanylion am gyfarfodydd y Senedd [yma](#).*

Mai 2016

Diweddarwyd Mehefin 2023, Hydref 2023, Ionawr 2024